RHWYDWAITH SECTOR CYHOEDDUS CYMRU \ THE PUBLIC SECTOR NETWORK FOR WALES



Ebrill 2024

# PSBA - rhwydwaith craff Cymru

Mae PSBA yn cysylltu gwasanaethau cyhoeddus Cymru, gan eu helpu i gyflawni mwy wrth ddarparu rhwydweithiau cyflymach, gwella diogelwch, hwyluso arloesi a symbylu cydweithredu.

Erbyn hyn rydym yn darparu cysylltiadau rhwydwaith technoleg gwybodaeth i dros 100 corff sector cyhoeddus yng Nghymru ar bron 5,000 safle ar draws y wlad – byrddau iechyd, awdurdodau lleol, ysgolion, colegau, prifysgolion, gwasanaethau brys a llawer mwy.

Mae PSBA yn deall anghenion eich corff ac yn cynnig gwasanaethau am brisiau cystadleuol.

## Addewid PSBA:

- **Arbenigedd**
  PSBA yn rhwydwaith ardal eang (WAN - wide area network) rheoledig a dibynadwy. Os bydd nam ar eich rhwydwaith, bydd ein tîm yn y brifddinas yn taclo unrhyw broblem yn gyflym.
- **Diogelwch**
  Ymosodiadau seiber yn gallu ymyrryd â rhwydweithiau am gyfnodau estynedig ac achosi trafferthion mawr. Bydd 40% o ymosodiadau maleiswedd yn targedu'r sector cyhoeddus. Mae Gwasanaethau Diogelwch PSBA yn cynnwys monitro rhwydwaith rhagweithiol a mesurau i isafu'r posibilrwydd o ymosodiadau – gan roi blaenoriaeth i ddiogelu eich rhwydwaith.
- **Prisiau cystadleuol – adolygu bob blwyddyn**
  PSBA yn cynrychioli contract gyda Llywodraeth Cymru a gynlluniwyd i ddarparu cysylltiadau rhwydwaith am brisiau cystadleuol i'r sector cyhoeddus. Bydd PSBA yn meincnodi ei gostau yn erbyn prisiau cwmnïau cyfathrebu eraill yn gyson, gan weithio gyda'r cwmnïau gwasanaeth mwyaf cost effeithiol er darparu'r gwerth gorau i'r wlad gyfan.

## Pam PSBA?

- **Arbed costau**
  Ymuno â'r rhwydwaith sy'n gwasanaethu sector cyhoeddus Cymru. Opsiwn cost effeithiol yn hytrach na chynnal sawl rhwydwaith ar draws eich corff.
- **Tawelwch meddwl**
  PSBA wedi gwasanaethu sector cyhoeddus Cymru am dros 10 blynedd, gan osod safon ar gyfer y diwydiant a defnyddio technolegau cadarn er darparu rhwydweithiau estynedig cyflym, dibynadwy a diogel.
- **Dibynadwy**
  Cytundebau lefelau gwasanaeth (SLA) yn elfennau pwysig o holl wasanaethau PSBA. Mae sector cyhoeddus Cymru yn mynnu gwasanaethau dibynadwy a dyna pam mae PSBA yn gwarantu hynny drwy gytundebau lefelau gwasanaeth.
- **Hyblygrwydd a dewis**
  PSBA yn cynnig gwasanaethau sy'n gallu tyfu gyda'ch corff, gydag amrediad o opsiynau cost effeithiol i hwyluso tyfiant os byddwch angen cynyddu ystod eich darpariaeth.
- **Gwasanaethau newydd arloesol**
  Ein nod yw cael hyd i ffyrdd arloesol o wella eich dulliau gweithredu. Wrth wneud hynny ar lefel Cymru gyfan, gallwn gynnig arbedion maint a safoni dulliau ar draws y gwahanol gyrff - gan wneud pethau'n fwy effeithlon i bawb.
- **Gwasanaethau PSBA**
  Cynigir gwasanaethau PSBA fel rhan o'r catalog.


**Timau PSBA**

3 Capital Quarter
Stryd Tyndall
Butetown
Caerdydd CF10 4BZ

**www.psba.gov.wales**

psba.pre.sales.team@bt.com


BT

Gweithio mewn partneriaeth gyda Llywodraeth Cymru
Working in partnership with Welsh Government

# Gwasanaethau PSBA

| Gwasanaeth | Disgrifiad? |
| --- | --- |
| Rhwydwaith ardal eang (WAN) rheoledig | Gwasanaethau WAN penodol ar gyfer cwsmeriaid wrth ddefnyddio MPLS VPNs, gan gynnal cysylltiadau diogel rhwng safleoedd. Ein porth cwsmeriaid yn helpu i reoli eich gwasanaethau wrth gynnig ystadegau, modd addasu eich gwasanaethau, archebu uwchraddiadau neu ychwanegu VPNs newydd. Rheolir pob gwasanaeth o ganolfan weithredu Caerdydd. |
| Cysylltedd | Cysylltiadau ffeibr gorau yn seiliedig ar anghenion a safleoedd eich corff. Gallwn gynnig amrediad eang o gysylltiadau, o fand eang uwchgyflym i Ethernet 10Gb. |
| Diogelwch | Taclo heriau ym meysydd cydymffurfiad, aeddfedrwydd digidol, asesu a rheoli risgiau, a diogelu asedau a gwybodaeth. Pecyn yn cynnwys monitro rhwydwaith rhagweithiol a mesurau i isafu'r risg o ymosodiadau. Offer DDoS (Denial of Service) ger pyrth rhyngrwyd PSBA yn atal ymosodiadau DDoS o du allan y rhwydwaith. |
| Gwasanaethau ychwanegol yn cynnwys: | |
| **Llwybro a mynediad rhyngrwyd IPv6** | Cysylltu eich corff â rhwydwaith diogel a dibynadwy. |
| **Multicast VPN** | Cysylltiadau preifat diogel bydd eich tîm cyfan yn gallu defnyddio. |
| **PSBA WebSafe** | Gwasanaeth hidlo'r we canolog a ddarperir gan BT, ond o dan reolaeth eich corff. Mae'n cynnal mesurau diogelwch digidol a seiber ar gyfer sefydliadau addysg a chyrff corfforaethol er darparu amgylchedd digidol saffach. |
| **Crwydro** | Gwasanaeth dilysu dirprwyol o dan reolaeth BT yn galluogi eich gweithwyr i weithio o safleoedd Crwydro PSBA a bod yn rhan o ffederasiwn Govroam y DU. |
| **Wi-Fi Cyhoeddus \| Wi-Fi Personol** | Galluogi eich corff i ddarparu mynediad i adnoddau arlein o adeiladau sector cyhoeddus, gan gynnwys mesurau llywodraethu a rheoli cynnwys. Wi-Fi Personol newydd yn darparu gwasanaeth band eang ar gyfer trigolion mewn adeiladau sy'n cynnwys sawl tenant, megis llety myfyrwyr a chartrefi gofal. |
| **HomeWorker** | Pecyn cynhwysfawr yn galluogi eich staff i weithio gartref yn effeithiol gydag atebion cysylltedd safon busnes, diogel a dibynadwy. |
| **Gwasanaeth SIP** | Opsiwn amgen i wasanaethau ISDN sy'n darparu galwadau llais i mewn ac allan dros eich rhwydwaith data. |
| **SD-WAN** | Gwasanaeth yn dadansoddi a blaenoriaethu traffig ar eich rhwydwaith, wedi'i deilwrio mewn ymateb i ofynion a maint eich busnes. |
| Gwasanaethau ymgynghorol arbenigol | Gwasanaethau datblygu strategaethau & profi cysyniadau PSBA yn helpu i gael yr atebion rhwydwaith a chyfarpar iawn i chi. |
| Gwasanaethau proffesiynol | Timau cynllunio, gweithredu a chymorth yn gweithio ar adnoddau rhwydwaith a gwasanaethau cysylltiedig. |

**Timau PSBA**

3 Capital Quarter
Stryd Tyndall
Butetown
Caerdydd CF10 4BZ

**www.psba.gov.wales**

psba.pre.sales.team@bt.com

Gweithio mewn partneriaeth gyda **Llywodraeth Cymru**
Working in partnership with **Welsh Government**